

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol**

Adroddiad Blynyddol 2021-22

Gorffennaf 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **[@SeneddDiwyllICRh](https://twitter.com/SeneddDiwyllICRh)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad Blynyddol 2021-22

Gorffennaf 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Hefin David AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru



Tom Giffard AS
Ceidwadwyr Cymreig



Carolyn Thomas AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Sam Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig

Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno crynodeb o weithgarwch yn ystod blwyddyn gyntaf y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Mae'r pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi cael effaith anferthol ar bob agwedd ar ein gwaith, a gwaith sefydliadau ac unigolion sydd yn rhan o'n cylch gwaith. Rydym wedi gweld nifer yr ymwelwyr â lleoliadau dan do fel theatrau a gigs cerddoriaeth fyw yn gostwng. Bu symudiad amlwg tuag at ymgysylltu digidol ag amgueddfeydd ac archifau. Mae cau ysgolion wedi effeithio ar ddatblygiad iaith plant, yn enwedig ar gyfer y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn y cartref. Gostyngodd cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon ar draws pob oedran, ond gostyngodd i raddau mwy helaeth mewn cartrefi mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae dychwelyd i gymryd rhan wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau diwylliannol megis Eisteddfodau, gwyliau, chwaraeon a theithiau ysgol yn rhywbeth i'w groesawu. Fodd bynnag, mae'n glir y bydd rhai o'r newidiadau strwythurol a welsom yn ystod y pandemig yn parhau: er enghraifft, gallai hyn arwain at gael mynediad at ein casgliadau cenedlaethol yn ddigidol, yn hytrach nag yn yr adeilad, yn amlach. Fel Pwyllgor, byddwn yn edrych ar ba effaith y bydd y newidiadau hyn yn ei chael ar wahanol grwpiau defnyddwyr pan fyddwn yn edrych ar hyn yn y dyfodol.

Yn ystod ein gwaith craffu ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, clywsom am yr heriau sylweddol y mae darlledwyr yng Nghymru yn eu hwynebu, fel newidiadau arfaethedig i drefniadau ffi'r drwydded a phoblogrwydd gwasanaethau ffrydio rhyngwladol. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig newidiadau i reoliadau yn eu Papur Gwyn ar ddiwygiadau darlledu, felly mae hwn yn faes y bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb ynddo yn ystod y Chweched Senedd.

Yn wahanol i'r Bumed Senedd, yn ystod y Senedd hon nid oes Gweinidog sydd â chyfrifoldeb penodol am gysylltiadau rhyngwladol yn Llywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith craffu ar y pwnc hwn, na phroffil y pwnc, yn dioddef o ganlyniad i hynny, rydym wedi cytuno y bydd y Prif Weinidog, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am y cylch gorchwyl, yn cymryd rhan mewn sesiwn graffu flynyddol gyda'r Pwyllgor. Rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau nad yw proffil byd-eang Cymru yn lleihau oherwydd ein perthynas newidiol â'r UE ac yn sgil effeithiau ehangach pandemig COVID-19, ac i barhau i fod yn ymwybodol o sut mae gwaith rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn croestorri â meysydd eraill o gylch gorchwyl ein pwyllgor.

Dangosodd ymchwiliad y Pwyllgor i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig yr heriau sy'n wynebu'r rhai na allant gael mynediad hawdd at gyfleusterau a hyfforddiant. Mae manteision iechyd a chymdeithasol amlwg cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u cyfyngu'n rhy aml i'r rhai sydd â'r amser a'r arian i deithio i feysydd chwaraeon neu dalu am gyfleusterau chwaraeon. Yn yr adroddiad ar yr ymchwiliad, gwnaed argymhellion ynghylch beth yw'r ffordd orau o sicrhau chwarae teg a bod pawb yn gallu cael mynediad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol i'w hun ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae nifer o heriau yn gysylltiedig â chyflawni'r targed hwn. Fe wnaeth y rhai a siaradodd â'r Pwyllgor dynnu sylw at y diffyg cyfleoedd i siarad Cymraeg mewn ysgolion a thrwy grwpiau cymunedol yn ystod y cyfyngiadau symud, a'r angen dybryd i gynyddu'r gweithlu addysg sy'n siarad Cymraeg. Cychwynnodd y Pwyllgor ymchwiliad i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ym mis Gorffennaf i ymchwilio i'r heriau sy'n gysylltiedig â datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf, mae'r costau byw cynyddol wedi cael effaith ar bob agwedd ar ein cylch gorchwyl. Byddwn yn edrych ar effaith y pwysau ariannol cynyddol hyn ar bob rhan o'n cylch gorchwyl.



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

1. Cyflwyniad

- 1.** Sefydlwyd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Chweched Senedd ar 14 Gorffennaf 2021. Diben y Pwyllgor yw craffu ar bolisi a deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn meysydd penodol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys y Gymraeg, diwylliant, y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, yr amgylchedd hanesyddol, cyfathrebu, darlledu, y cyfryngau, chwaraeon a chysylltiadau rhyngwladol.
- 2.** Penderfynwyd ar gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn ar ddechrau'r Chweched Senedd. Mae'n debyg iawn i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y Bumod Senedd, ond gan ychwanegu Cysylltiadau Rhyngwladol (a oedd â'i Bwyllgor ei hun), a Chwaraeon (a oedd yn flaenorol yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol). Mae'r Pwyllgor wedi nodi ei raglen waith, ei amcanion a'i werthoedd mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 - **'Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd'**.
- 3.** Mae gan y Pwyllgor chwe Aelod sy'n dod o'r gwahanol bleidiau sydd â chynrychiolaeth yn y Senedd:
 - Delyth Jewell AS, Cadeirydd (Plaid Cymru)
 - Hefin David AS (Llafur Cymru)
 - Alun Davies AS (Llafur Cymru)
 - Heledd Fychan AS (Plaid Cymru)
 - Tom Giffard AS (Y Ceidwadwyr Cymreig)
 - Carolyn Thomas AS (Llafur Cymru)

Gwerthoedd

- 4.** Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd y gwerthoedd hyn yn cael eu harddangos drwy gydol ein gwaith:
 - Hyrwyddo, ac yn gweithredu fel hyrwyddwr ar ran y sectorau sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl.
 - Gweithio i sicrhau mynediad cyfartal a chyfranogiad mewn diwylliant, y celfyddydau, treftadaeth, y Gymraeg a chwaraeon i bawb yng Nghymru.

- Ysgogi newid drwy fod yn heriol, yn effeithiol ac yn adeiladol yn ein gwaith craffu.

Amcanion

5. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yn ceisio bodloni'r amcanion hyn wrth i ni gyflawni ein cyfrifoldebau:

- Gweithredu fel ffrind beirniadol i Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddur ganddi, ac yn craffu ar gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Bydd hefyd yn craffu ar weithgarwch Llywodraeth y DU a chyrff perthnasol eraill yn y DU sy'n ymwneud â Chymru.
- Sicrhau bod ystod o leisiau gwahanol yn cael eu clywed ar faterion sy'n effeithio arnynt.
- Gweithredu'n dryloyw ac yn hygyrch yn ein holl weithgareddau i sicrhau bod cynnydd ein gwaith yn agored ac yn glir i bawb.

Canlyniadau

6. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- Sefydlu a chynnal perthynas ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu cynrychioli yn ein gwaith.
- Sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lunio gan brofiadau bywyd go iawn drwy gyfarfod a dysgu gan bobl ar lawr gwlad o wahanol gefndiroedd ledled Cymru.
- Hygyrch i'r holl randdeiliaid drwy normaleiddio dull gweithredu hyblyg gan gynnwys cyfarfod ar sail hybrid fel gofyniad safonol.
- Darparu asesiad gonest o'n perfformiad drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddiwedd pob tymor yr haf; a sicrhau tryloywder drwy gyhoeddi blaengynllun gwaith ar ddechrau pob tymor yr hydref.

7. Ymwelodd y Pwyllgor â gogledd Cymru ym mis Mai i gael tystiolaeth uniongyrchol gan Glwb Pêl-droed Wrecsam, clybiau chwaraeon ieuenctid, lleoliadau diwylliannol, Theatr Clwyd, canolfan gweithgareddau awyr agored Plas Menai a Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn yr Amgueddfa Lechi. Roedd cyfarfod â phobl i drafod eu pryderon ar bynciau o fewn ein cylch gorchwyl wyneb yn wyneb yn weithgaredd dysgu gwerthfawr sydd wedi llywio'r argymhellion yn ein hadroddiadau, yn ogystal â'n rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

8. Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn yn rhoi crynodeb o'n gweithgareddau ac unrhyw bwyntiau dysgu a fydd yn dylanwadu ar ein gwaith ym mhob maes yn ystod y Chweched Senedd.

Ymchwiliadau undydd

9. Er mwyn pennu blaenoriaethau'r rhanddeiliaid i lywio ein gwaith craffu, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o ymchwiliadau undydd yn ymwneud â'r holl bynciau yn ein cylch gorchwyl yn ystod hydref 2021 a gwanwyn 2022. Roedd hyn yn galluogi pobl o'r trydydd sector, cyrff a noddur gan y llywodraeth, grwpiau lobiö, undebau a phartïon eraill â diddordeb i siarad ag Aelodau am yr heriau a'r cyfleoedd pwysicaf a mwyaf taer yn eu sectorau yn eu barn hwy.

2. Cysylltiadau Rhyngwladol

10. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â chysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys cyflawni ei **strategaeth ryngwladol**, a'i **chynlluniau gweithredu** cysylltiedig.

11. Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd ar gysylltiadau rhyngwladol ym mis Chwefror 2022. Clywodd y Pwyllgor gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys British Council, academyddion, sefydliadau'r trydydd sector a chyrrff chwaraeon. Buont yn siarad am fanteision ac anfanteision y Prif Weinidog yn ailafael yng nghyfrifoldebau'r Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol blaenorol ers i'r swydd benodedig ddod i ben ar ôl etholiad 2021. Nododd y rhanddeiliaid yr adegau pan maent wedi cael ymgysylltiad da â Llywodraeth Cymru ar feysydd sy'n flaenoriaeth ar y cyd, fel Taith a Rhaglen Cymru ac Affrica. Fodd bynnag, tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod ymgysylltu mewn meysydd eraill wedi bod yn amrywiol yn aml, ond bod llawer o gyfleoedd i gydweithio'n agosach.

12. Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r angen am ailffocysu neu adnewyddu rhai elfennau o'r strategaeth ryngwladol i adlewyrchu newidiadau yn y cyd-destun byd-eang ers ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2020, gan gynnwys ymadawiad y DU â'r UE, yr argyfwng hinsawdd a mudiadau cyfiawnder cymdeithasol.

13. Amlygodd y rhanddeiliaid hefyd yr angen i ymgorffori iaith a diwylliant ym mhob agwedd ar y strategaeth ryngwladol. Galwyd yn benodol am ddull mwy strategol o hyrwyddo diwylliant Cymru, gan gynnwys y celfyddydau, ochr yn ochr â chyfranogiad Cymru mewn digwyddiadau chwaraeon mawr dramor.

14. Cynhaliom ein sesiwn graffu flynyddol gyntaf ar gysylltiadau rhyngwladol â'r Prif Weinidog ar 23 Mehefin. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru, rôl y rhwydwaith swyddfeydd tramor a'r ffordd y mae'n mynd i'r afael â chysylltiadau ag Ewrop.

Y Camau Nesaf

15. Byddwn yn:

- parhau i gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i fanteisio'n economaidd ac yn ddiwylliannol ar y ffaith fod Cymru wedi cyrraedd Cwpan y Byd yn Qatar;

- monitro gweithgarwch rhyngwladol yn barhaus a mynd i'r afael ag unrhyw faterion o ddiddordeb;
- cynnal sesiynau craffu blynyddol gyda'r Prif Weinidog;
- cynnal gwaith craffu rheolaidd ar Weinidogion eraill sydd â gweithgarwch rhyngwladol yn eu portffolio, megis y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Gweinidog yr Economi, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Newid Hinsawdd.
- archwilio agweddau mwy manwl ar gysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys y rhai a drafodwyd yn **Blaenoriaethau a Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd** y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor.

3. Cyfathrebu

16. Er bod darlledu a chyfryngau eraill yn faterion a gedwir yn ôl, rydym wedi dewis cynnal gwaith craffu blynyddol ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r cyfryngau yng Nghymru. Rydym yn gyfrifol am graffu ar faterion darlledu o fewn cylch gorchwyl Ofcom Cymru.

17. Clywsom gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, academyddion, cynhyrchwyr ac Ofcom am yr heriau sylweddol y mae maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn eu hwynebu, ym mis Hydref 2021. Cafodd hyn ei ysgogi yn rhannol gan adroddiad ac argymhellion a gyhoeddwyd gan Ofcom, 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr'. Gwnaeth Ofcom nifer o argymhellion, er enghraifft, am yr angen i sicrhau bod sefyllfa fwy teg rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau tanysgrifio ffrydio a bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i gael amlygrwydd i'w galluogi i gystadlu.

18. Ysgrifennom at Lywodraeth y DU yn nodi ein pryderon y gallai symud oddi wrth fodel ariannu ffi'r drwydded ar gyfer y BBC a S4C arwain at lai o ddewis i ddefnyddwyr, a gallai gael effaith andwyol ar gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru. Ysgrifennom at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y materion hyn, ac i'w gwahodd i gyfarfod i drafod yr heriau sy'n wynebu darlledwyr sector cyhoeddus (yn benodol ar gyfer darlledwyr sector cyhoeddus yng Nghymru, wrth gystadlu â gwasanaethau ffrydio cynnwys rhyngwladol am hawliau i ddarlledu chwaraeon byw, gan gynnwys rygbi rhyngwladol). Ers hynny, er nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gallu bod yn bresennol yn un o'n cyfarfodydd eto, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Papur Gwyn '**The Government's vision for the broadcasting sector**' sy'n amlinellu deddfwriaeth arfaethedig ar lawer o'r materion hyn.

Y camau nesaf

19. Byddwn yn:

- cynnal sesiynau craffu blynyddol gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac Ofcom Cymru;
- cadw golwg ar adolygiad Llywodraeth y DU o'r model ariannu ffi'r drwydded a'r Papur Gwyn ar ddarlledu;
- parhau i geisio cynnal cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i drafod effaith diwygiadau arfaethedig Llywodraeth y DU ar Gymru.

4. Diwylliant

Treftadaeth, amgueddfeydd ac archifdai

20. Rydym yn gyfrifol am graffu ar berfformiad Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi fel Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r Cyngor Celfyddydau. Rydym hefyd yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar y diwydiannau creadigol megis cynhyrchu ffilm a theledu.

21. Ym mis Tachwedd 2021, cynhaliom ymchwiliad undydd ar yr heriau sy'n wynebu'r sectorau treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau. Galwodd y rhai a gymerodd ran am fwy o gyllid i amgueddfeydd lleol a rhagor o gyllid cyfalaf ar gyfer Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol. Bu galw hefyd am adnoddau i gynyddu mynediad digidol i gasgliadau, ac mae'r galw amdanynt wedi cynyddu'n fawr yn ystod y pandemig.

22. Y camau nesaf Lansiodd Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru 'Gynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad' mewn ymateb i adolygiad o'u gweithgareddau i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn adlewyrchu bywydau pob unigolyn a chymuned. Byddwn yn craffu ar gyflawni'r cynlluniau hyn. Byddwn yn:

- craffu ar gyflawni'r cynlluniau hyn
- craffu ar gyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i sefydlu Amgueddfa Bêl-droed yn Wrecsam, Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol, ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis a Strategaeth Ddiwylliannol.

Y diwydiannau creadigol

23. Fe wnaethom gynnal ymchwiliad undydd i'r materion sy'n wynebu'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2021. Clywsom gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Music Venues Trust, cynrychiolwyr o gwmnïau cynhyrchu ffilm a theledu a busnesau cysylltiedig.

24. Fe wnaethom glywed bod camau gweithredu'n hanfodol i gyflawni strategaeth sgiliau hirdymor sy'n cael ei hariannu'n ddigonol i gefnogi twf posibl ac y dylai hyn gael ei lunio a'i gyflawni gydag adran addysg Llywodraeth Cymru.

25. Soniodd cynrychiolwyr am golledion ariannol, megis llai o incwm presenoldeb a chostau gorfodi uwch, yn sgil cyflwyno'r pàs Covid ar leoliadau adloniant. Roeddent am gael asesiad

llawn o effaith y pàs. Roedd galwad am i leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad gael eu cydnabod fel endidau creadigol yn ogystal ag endidau masnachol.

26. Siaradodd y rhai o faes cynyrchiadau ffilm a theledu â ni am y cymorth yr oeddent wedi'i gynnig, yn enwedig i weithwyr llawrydd, i ddarparu hyfforddiant ar-lein yn ystod y cyfnod tawel mewn cynhyrchu yn ystod y cyfyngiadau symud.

27. Roedd y rhai oedd yn bresennol yn y sesiwn yn pryderu am effaith bosibl Brexit ar y diwydiant. Er enghraifft, amlygwyd problemau yn y gadwyn gyflenwi, mynediad at gyllid, mynediad at dalent, a chostau a rhwystrau ychwanegol i artistiaid sy'n teithio yn Ewrop.

Y camau nesaf

- Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal trafodaeth banel yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 'Beth nesaf i'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru?'.

5. Chwaraeon

28. Cyn y Chweched Senedd, y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn gyfrifol am graffu ar waith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chwaraeon, gan gynnwys y prif gorff a noddir ganddi, Chwaraeon Cymru. Bellach, mae'r holl faterion yn ymwneud â chwaraeon o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

29. Clywsom am effeithiau parhaus cyfyngiadau COVID-19 ar gyrff chwaraeon a chyfranogiad ar draws pob gallu ac ystod oedran yn ystod ymchwiliad undydd ar 20 Hydref 2021. Clywodd yr Aelodau fod lefelau cyfranogiad wedi gostwng yn gyffredinol, ond bod menywod, y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a'r rhai 55+ oed yn fwy tebygol (na'u cymheiriaid) o ddweud eu bod wedi cymryd rhan mewn 'dim gweithgaredd'. Cytunodd y cyfranogwyr fod y pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau presennol o ran mynediad at weithgareddau chwaraeon.

30. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth hon, cytunom i gynnal ymchwiliad i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Yn ogystal â chlywed gan gynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau a chyrrff chwaraeon, aeth yr Aelodau ar ymweliad â chanolfan chwaraeon Plas Menai a chlwb gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn (y ddau yng ngogledd Cymru). Rhoddodd yr ymweliad â Phlas Menai drosolwg o waith y Ganolfan i Aelodau'r Pwyllgor, yn ogystal â gwybodaeth am ddatblygiad Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru sydd ar ddod. Rhoddodd clwb gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn gipolwg i'r Aelodau ar waith clwb chwaraeon cymunedol a'r heriau sy'n wynebu sefydliadau o'r fath wrth iddynt adfer ar ôl y pandemig.

31. Fel rhan o'i ymrwymiad i 'Sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lunio gan brofiadau bywyd go iawn drwy gyfarfod a dysgu gan bobl ar lawr gwlad o wahanol gefndiroedd ledled Cymru', rhoddodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gefnogaeth i'r Pwyllgor drwy drefnu cyfres o gyfweiliadau un i un gyda hyfforddwyr ar lawr gwlad yng Nghymru. Amcan y gwaith ymgysylltu oedd casglu barn a phrofiadau hyfforddwyr ym mhob rhan o dde Cymru a oedd wedi cael profiadau byw o gefnogi grwpiau o bobl mewn ardaloedd difreintiedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon.

32. Mae'r sefydliadau y gwnaethom ymgysylltu â hwy yn gweithio'n agos gyda chynulleidfaoedd penodol, gan gynnwys:

- Menywod a merched
- Cymunedau lleiafrifoedd ethnig

- Pobl ag anableddau
- Pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlawd.

33. Yn ogystal â materion penodol a oedd yn berthnasol i gynulleidfaoedd penodol, roedd y themâu cyffredinol a ddaeth i'r amlwg drwy gydol y gwaith ymgysylltu yn cynnwys:

- Effaith costau byw
- Diffyg cyfleusterau addas
- Materion cyllid ehangach
- Rolau gwirfoddolwyr a modelau rôl.

34. Hoffwn ddiolch i'r holl grwpiau a gyfrannodd at yr ymchwiliad, gan gynnwys:

- pobl hŷn y gwnaethom gwrdd â nhw wrth iddynt chwarae criced cloc;
- pobl ifanc ag anableddau (a'u rhieni) a oedd yn cymryd rhan mewn sesiynau bocsiu;
- pobl ifanc yn cymryd rhan yn y prosiect 'Camu i Chwaraeon'.

Y camau nesaf

35. Byddwn yn:

- Cael ymateb gan Lywodraeth Cymru yn nodi pa argymhellion y bydd yn eu datblygu a sut y caiff y newidiadau hynny eu cyflawni;
- cynnal dadl gyda'r holl Aelodau o'r Senedd ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

6. Y Gymraeg

36. Rydym yn gyfrifol am graffu ar ddyletswyddau statudol ac ymrwymadau Llywodraeth Cymru i gefnogi a hybu'r Gymraeg. Mae'r rhain wedi'u nodi yn ei Strategaeth ar gyfer y Gymraeg: Cymraeg 2050. Mae hyn yn cael ei wneud drwy gynnal sesiynau craffu blynyddol gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a Chomisiynydd y Gymraeg, o leiaf.

37. Cynhaliwyd ymchwiliad undydd i'r materion sy'n wynebu sefydliadau sy'n cefnogi ac yn hybu'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2021. O ran y materion pwysicaf, nododd rhanddeiliaid yr heriau o gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymestyn mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg i blant dwy oed a'r galw cynyddol am addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Galwodd y rhanddeiliaid hefyd am gynlluniau newydd a radical i ddenu siaradwyr Cymraeg i weithio yn y sector addysg statudol. Cododd y sectorau ôl-16 ac addysg alwedigaethol yr angen i gynyddu a datblygu gweithlu sy'n siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym mai un o'r heriau sylweddol yn y dyfodol fydd cefnogi a hybu disgyblion Cymraeg eu hiaith i symud ymlaen i'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Bydd angen adnoddau a chefnogaeth ychwanegol sylweddol ar gyfer y sector er mwyn gwneud hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu swm ychwanegol o £8 miliwn dros dair blynedd (2022-2025) i ehangu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y sector ôl-16.

38. Galwyd arnom i edrych yn agosach ar drosglwyddo iaith o rieni i blant yn y cartref, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ac mewn cyd-destun cymdeithasol. Awgrymwyd y dylid casglu ffigyrau i ddangos faint o ddisgyblion sydd wedi penderfynu gadael y system addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl treulio amser hir i ffwrdd o amgylchedd trochi Cymraeg.

39. Clywsom fod y pandemig wedi tynnu sylw at y gwendidau yn y system ynghylch dysgu Cymraeg i oedolion. Cynyddodd y galw am ddysgu ar-lein yn gyflym yn ystod y pandemig, gan ddisodli sesiynau wyneb yn wyneb traddodiadol fel y dull diofyn ar gyfer darpariaeth Cymraeg i oedolion.

Craffu ar waith Comisiynydd y Gymraeg

40. Rydym yn cynnal sesiynau craffu blynyddol gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i'r Comisiynydd ar y pryd, Aled Roberts, roi sylwadau ar effaith pandemig COVID 19 a Brexit ar yr iaith. Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor ar y pryd ei fod yn bryderus y gallai'r ffaith fod llawer wedi symud at weithio gartref effeithio ar y rhai sy'n llai

hyderus yn eu sgiliau iaith, ac efallai na fyddant bellach yn gallu cryfhau eu sgiliau drwy ryngweithio â siaradwyr Cymraeg yn y gweithle.

41. Dywedodd y Comisiynydd fod cynnydd wedi bod ers y pandemig yn nifer yr ail gartrefi sy'n cael eu prynu mewn ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith yn benodol. Mae hyn yn arwain at risg o brisio cenhedlaeth gyfan allan o fyw yn eu cymunedau, a galwodd am ymyrryd yn y maes hwn, gan gynnwys edrych ar bolisi trethiant.

42. Fe wnaethom glywed bod posibilrwydd y gallai symud i weithio o bell alluogi mwy o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf i fyw a gweithio yng nghadarnleoedd y Gymraeg, yn hytrach na gorfod symud ymhellach i ffwrdd am gyfleoedd gwaith. Galwodd y Comisiynydd ar Lywodraeth Cymru a sefydliadau'r sector cyhoeddus i ystyried yr iaith yn eu cynlluniau ar gyfer gweithio hyblyg.

43. Dywedodd y Comisiynydd hefyd fod risg i'r iaith yn sgil newidiadau i bolisiau amaethyddol yn dilyn Brexit. O ystyried bod 90 y cant o'r gweithlu amaethyddiaeth yng ngorllewin a gogledd Cymru yn siarad Cymraeg, mae angen cefnogaeth ariannol ddigonol – yn enwedig ar gyfer ffermydd teuluol bychain – i sicrhau na fydd yr iaith yn dirywio os bydd hyfywedd y ffermydd hyn yn cael ei fygwth. Ysgrifennom wedyn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r pryderon hyn wrth iddynt ddatblygu polisi cyllid ar gyfer y sector amaethyddiaeth.

44. Yn dilyn marwolaeth ddisymwth Aled Roberts ym mis Chwefror 2022, hoffem gydnabod gwaith diflino Aled Roberts yn hyrwyddo ei wlad a'i iaith, a rydym yn anfon ein cydymdeimlad diffuant i'w deulu.

Y camau nesaf

45. Byddwn yn:

- cynnal ymchwiliad i lwyddiant Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ran cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg
- cynnal trafodaeth banel ar enwau lleoedd Cymraeg yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

7. Gweithgareddau eraill

Deddfwriaeth

46. Trafododd y Pwyllgor yr hyn a ganlyn:

- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael).

Craffu cyn penodi

47. Am y tro cyntaf yn y Chweched Senedd, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r Senedd wedi cytuno i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi ar gyfer rhai penodiadau i rôl y Cadeirydd gan bwyllgorau er mwyn gwella gwaith craffu a gwella tryloywder y broses o wneud penodiadau cyhoeddus.

48. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu cyn penodi ar gyfer yr ymgeiswyr a ffeifir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y swyddi a ganlyn:

- Cadeirydd Chwaraeon Cymru
- Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

49. Mewn ymateb i alwad ar i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus, trefnodd Llywodraeth Cymru i Aelodau'r Pwyllgor gael sesiwn frifio gan swyddogion o'r Uned Penodiadau Cyhoeddus i glywed am ymdrechion i gyrraedd cynulleidfia ehangach yn eu prosesau recriwtio.

Gwaith y pwyllgor

Dyddiad	Pwnc
13 Medi 2021	<u>Digwyddiad cynllunio strategol</u>
15 Medi 2021	<u>Craffu blynyddol ar waith Gweinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip</u>
29 Medi 2021	<u>Craffu blynyddol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg</u> <u>Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd y Gymraeg</u>

Dyddiad	Pwnc
13 Hydref 2021	<u>Ymchwiliad undydd ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus</u>
20 Hydref 2021	<u>Ymchwiliad undydd i chwaraeon</u>
10 Tachwedd 2021	<u>Ymchwiliad undydd i dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau</u>
24 Tachwedd 2021	<u>Ymchwiliad undydd i'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol</u>
8 Rhagfyr 2021	<u>Ymchwiliad undydd ar y Gymraeg</u>
15 Rhagfyr 2021	<u>Digwyddiad cynllunio strategol</u>
19 Ionawr 2022	<u>Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23</u>
2 Chwefror 2022	<u>Ymchwiliad undydd ar gysylltiadau rhwngwladol</u>
2 Mawrth 2022	<u>Gwrandawriad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Chwaraeon Cymru</u>
16 Mawrth 2022	<u>Ymchwiliad i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig a gwrandawriad cyn penodi Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u>
4 Mai 2022	<u>Ymchwiliad i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig</u>
19 Mai 2022	<u>Ymweliad â Chlwb Pêl-droed Wrecsam, Saith Seren, Theatr Clwyd, clwb gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn, canolfan awyr agored genedlaethol Plas Menai, Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ac Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis.</u>
8 Mehefin 2022	<u>Ymchwiliad i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig</u>
23 Mehefin 2022	<u>Craffu blynyddol ar waith y Prif Weinidog</u>
6 Gorffennaf 2022	<u>Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg</u>

Adroddiadau

Dyddiad	Pwnc
Rhagfyr 2021	<u>Ymateb i Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr</u>
Chwefror 2022	<u>Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23</u>

Dyddiad	Pwnc
Mawrth 2022	<u>Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)</u>
Mawrth 2022	<u>Craffu cyn penodi rôl Cadeirydd Chwaraeon Cymru</u>
Mawrth 2022	<u>Craffu cyn penodi rôl Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u>
Mawrth 2022	<u>Blaenoriaethau a strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd</u>
Mehefin 2022	<u>Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein</u>